# Cynnwys

Cynnwys
Rhaglen 2
4 - 'Blackout', 32, Ffordd Caergybi, Bangor, LL57 2EU 6
5 - Yates, Glanrafon, Bangor, LL57 1LP 8

**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
# CENTRAL LICENSING SUB-COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**DYDD MAWRTH, 21 o IONAWR 2014**

**TUESDAY, 21 JANUARY 2014**

Lleoliad / Location:

**SIAMBR HYWEL DDA**
**SWYDDFEYDD Y CYNGOR / COUNCIL OFFICES**
**CAERNARFON**
**am /at 2:00pm**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**LOWRI HAF EVANS (01286) 679878**

lowrihafevans@gwynedd.gov.uk

*Dosbarthwyd/Distributed: 10.1.14*

## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

## LICENSING SUB-COMMITTEE

**Aelodaeth / Membership (3)**

Y Cynghorwyr / Councillors

W Tudor Owen (Cadeirydd/Chairman)

Peter Read

Dilwyn Lloyd

Elfed Williams (wrth gefn)

**Aelod Lleol / Local Member**

Cynghorydd/Councillor

David Gwynfor Edwards

June Marshall

Mair Rowlands

# RHAGLEN

1. **CROESO ac YMDDIHEURIADAU**

   **Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.**

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   **Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.**

3. **MATERION BRYS**

   **Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.**

4. **CAIS AM AMRYWIAD TRWYDDED EIDDO:**

   **'BLACKOUT', 32, FFORDD CAERGYBI, BANGOR , LL57 2EU**

   **Ystyried y cais uchod**
   **(papur glas)**

5. **CAIS AM AMRYWIAD TRWYDDED EIDDO:**

   **YATES, GLANRAFON, BANGOR , LL57 1LP**

   **Ystyried y cais uchod**
   **(papur pinc)**

## TREFN MEWN GWRANDAWIADAU I WYRO TRWYDDED

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.

2. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

4 Gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion

5. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd

6. Gwahoddiad i bob ymgynghorai gefnogi sylwadau ysgrifenedig

7. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

8. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

Atgoffir pawb o'r pedwar egwyddor o'r Ddeddf Trwyddedu 2003 fydd angen ei ystyried, sef:

1. **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
2. **Diogelwch y Cyhoedd;**
3. **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
4. **Amddiffyn plant rhag niwed:**

## PROCEDURES FOR LICENSING VARIATION HEARINGS

1. A written report will be presented by the Licensing Section (with recommendation).

2. Members of the Sub-committee may ask questions of the Council's representative.

3. At the Chairman's discretion the applicant and/or his representative may ask questions of the Council's representative.

4. The applicant and/or his representative may expand upon the application and call witnesses

5. Members of the Sub-committee may ask questions of the applicant and/or his representative

6. There will be an invitation for each consultee to support any written observations

7. Members of the Sub-committee may ask questions of the consultees.

8. At the Chairman's discretion the Council's representative and the applicant or his representative may summarise their case.

All are reminded of the four principles of the Licensing Act 2003 to be considered in all deliberations, namely:

1) **Crime and Disorder Prevention;**
2) **Public Safety;**
3) **Public Nuisance Prevention; and**
4) **Protection of Children from Harm.**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **21 IONAWR 2014** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO – BLACKOUT, 32 FFORDD CAERGYBI, BANGORLL57 2EU** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH RHEOLEIDDIO** |

## CAIS

Atodir cais am drwydded eiddo o'r newydd ar gyfer Blackout, 32 Ffordd Caergybi , Bangor LL57 2EU gan yr ymgeisydd , Melody Jones, 106-108 Stryd Fawr, Bangor LL57 1NS.
Gwneir y cais mewn perthynas â chyflenwi alcohol, cerddoriaeth wedi ei recordio, a darpariaeth lluniaeth hwyr y nos.Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig.

| GWEITHGAREDDAU TRWYDDEDIG | TRWYDDED ARFAETHEDIG |
|---|---|
| **Cyflenwi alcohol** | Llun - Sul<br>**10:00 – 01:00*** |
| **Cerddoriaeth wedi ei recordio** | Llun - Sul<br>**10:00 – 01:30*** |
| **Darparu lluniaeth hwyr y nos** | Llun - Sul<br>**23:00 – 00:00*** |
| **Oriau agor a chau i'r cyhoedd** | Llun - Sul<br>**10:00 – 01:30*** |
| | |

*Ymestyniad o hanner awr i bob gweithgaredd trwyddedig , ac oriau cau ar gyfnodau arbennig – megis Wythnos y Glas, diwrnod Dewi Sant a Sant Padrig ayyb.

**Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu**

- Bwriad i weithredu polisi 'Challenge 21'
- Dim plant ar yr eiddo heb oedolyn
- Dim plant aryreiddo ar ôl 19:30
- Hyfforddiant i staff
- Ymgynhori gyda'r Heddlu cyn cynnal digwyddiadau hyrwyddo diodydd alcohol
- TCC
- Goruchwylwyr drysau
- Asesiad risg Diogelwch tan i'w gynnal mewn cydweithrediad a'r Gwasanaeth Tan
- Cwsmeriaid i'w hatgoffa o'r angen i beidio tarfu ar breswylwyr cyfagos wrth ymadael

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir ar dudalen 19 o'r cais.

## YMGYNGHORIAD

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Aelodau lleol | 2 e bost - gwrthwynebu |
| Aelodau Cyngor Dinas Bangor | 3 e bost - gwrthwynebu |
| Heddlu | 1 e bost - dim gwrthwynebiad –gydag amodau |
| Preswylwyr cyfagos | 1 e bost - gwrthwynebu |
| Cyngor Gwynedd – gwasanaeth Cynllunio | 1 e bost - sylwadau |
| Gwasanaeth Tan ac Achub | Llythyr – dim gwrthwynebiad |

**Gwrthwynebiad - Aelodau lleol**

Mae'r aelodau lleol yn gwrthwynebu ar sail yr amcanion trwyddedu o

- Atal trosedd ac anrhefn
- Atal niwsans cyhoeddus,
- Diogelwch y cyhoedd

Mewn perthynas â'r cais. Datganir fod Bangor Uchaf yn gylchfa breswyl; ac y bydd caniatáu y cais yn gwaethygu'r effaith gronnol o niwsans a throsedd ac anrhefn fel canlyniad i or-ddarpariaeth o weithgareddau trwyddedig . Nodir fod hyn yn amharu ar breswylwyr sydd wedi eu lleoli yn agos iawn i'r eiddo.

**Gwrthwynebiad – Aelodau Cyngor Dinas Bangor**

Mae gwrthwynebiad aelodau Cyngor Dinas Bangor yn cael ei wneud ar sail yr amcanion trwyddedu o –

- Atal trosedd ac anrhefn
- Rhwystro niwsans cyhoeddus

Cyflwynwyd y gwrthwynebiad oherwydd pryder am leoliad yr eiddo trwyddedig arfaethedig yn agos i eiddo preswyl. Datganir pryder y byddai caniatáu eiddo trwyddedig arall ym MangorUchaf yn ychwanegu at y problemau ymddygiad gwrth – gymdeithasol sydd eisoes yn bodoli.

**Gwrthwynebiad - preswylydd cyfagos**

Derbyniwyd sylwadau a gwrthwynebiad preswylydd cyfagos drwy e bost gan yr aelod lleol. Mae'r preswylydd yn byw yn agos i'r eiddo trwyddedig arfaethedig ac yn bryderus fod caniatau y cais yn mynd i arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol a niwsans cyhoeddus.

**Sylwadau ac argymhellion yr Heddlu**

Nid yw'r Heddlu yn gwrthwynebu'r cais, ond argymhellir amodau i'w cynnwys ar y drwydded yn dilyn cytundeb gyda'r ymgeisydd mewn perthynas â TCC, Goruchwylwyr Drysau, gweler manylion yr hyn a gytunwyd wedi ei atodi i sylwadau'r Heddlu ar y cais.

**Sylwadau Gwasanaeth Cynllunio , Cyngor Gwynedd**

Noder y bydd angen caniatad cynllunio oherwydd na fydd y busnes yn cael ei wethredu fel siop yn unol a dosbarth defnydd A1sydd wedi ei ddynodi ar gyfer yr eiddo.
Mae'r ymgeisydd wedi cadarnhau wrth swyddogion yr Uned Drwyddedu ei bod yn y broses o wneud cais newid defnydd llawn ar gyfer yr eiddo.

Gweler y manylion llawn y sylwadau a dderbyniwyd ynghlwm a'r adroddiad.

Derbyniwyd un llythyr o wrthwynebiad gan ddeilydd trwydded busnes cyfagos. Oherwydd fod y llythyr wedi ei dderbyn wedi dyddiad cau ar gyfer sylwadau ar y cais, nid yw'r llythyr yn cael ei gynnwys gyda'r adroddiad hwn er ystyriaeth; yn unol â gofynion statudol y broses drwyddedu.

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **21 IONAWR 2014** |
| **TEITL:** | **CAIS AM WYRIAD O DRWYDDED EIDDO –YATES'S GLANRAFON, BANGOR LL57 1 LP** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH RHEOLEIDDIO** |

## CAIS

Atodir cais am drwydde deiddo o'r newydd ar gyfer Yates's , Glanrafon, Bangor LL57 1LP gan ddeilwyr y drwydded , sef Stonegate Pub Company Limited o Porter Tun House, 500 Capability Green Luton LU1 3LJ
Gwneir y cais er mwyn ceisio am wyriad o oriau agor ar gyfer gweithgareddau trwyddedig; ac er pwrpas diddymu amodau nad ydynt bellach yn addas neu oherwydd eu bod yn rhy gaeth.

Gofynnir am agor yr eiddo i'r Cyhoedd am 9:00 y bore , saith diwrnod yr wythnos. Yn bresennol, mae'r eiddo yn agor i'r Cyhoedd am 10:00 o Ddydd Llun i ddydd Sadwrn; ac am 11:00 fore Sul. Nodir yn y cais y bydd yr oriau ar gyfer gweithgareddau trwyddedig yn cael eu cadw yn unol â'r drwydded gyfredol.
Mae'r ymgeisydd yn cynnwys manylion o'r amodau hynny sydd angen eu newid/dileu, a'r rhesymau dros y newidiadau ar dudalen 8 o'r ffurflen gais.
Mae rhai o'r newidiadau a argymhellir , er enghraifft dileu'r amod nad yw diodydd i'w gweini mewn cynhwysyddion gwydr arôl 19:00; wedi eu trafod gyda'r Heddlu.

## YMGYNGHORIAD

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Cyngor Dinas Bangor | e bost- gwrthwynebu |
| Heddlu | e bost - dim gwrthwynebiad |
| Gwasanaeth Tan ac Achub | Llythyr – dim gwrthwynebiad |

**Gwrthwynebiad – Cyngor Dinas Bangor**
Mae gwrthwynebiad aelodau Cyngor Dinas Bangor yn cael ei wneud ar sail yr amcanion trwyddedu o –

- Atal trosedd ac anrhefn
- Diogelu'r Cyhoedd
- Atal niwsans cyhoeddus

Cyflwynwyd y gwrthwynebiad oherwydd pryder am leoliad yr eiddo trwyddedig mewn llecyn sensitif ger y Gadeirlan ac yn agos i eiddo preswyl. Datganir pryder y byddai caniatáu dileu'r amodau mewn perthynas â gwahardd y defnydd o wydrar ôl 19:00 yn arwain at beryglu'r Cyhoedd. Mae tystiolaeth wedi bod yn y gorffennol o wydr a photeli wedi eu taflu dros y clawdd i ardd y Gadeirlan. Mae aelodau'r Cyngor Dinas hefyd yn bryderus y bydd newid yr amodau parthed Goruchwylwyr Drysau yn arwain at ddiffyg rheolaeth ar gwsmeriaid a all arwain at gynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Gweler y manylion llawn y sylwadau a dderbyniwyd ynghlwm a'r adroddiad.

## ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.